


Asesiad o'r effaith ar y Gymraeg

Cymraeg 2050 yw ein strategaeth genedlaethol ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

Mae Llywodraeth Cymru yn gwbl ymrwymedig i'r strategaeth newydd, ac mae'r targed o filiwn o siaradwyr wedi'i gynnwys yn ei Rhaglen Lywodraethu. Mae iaith Gymraeg sy'n ffynnu yn un o'r 7 nod llesiant yn Neddff Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 hefyd.

Mae rhwymedigaeth statudol arnom hefyd i roi ystyriaeth lawn i effeithiau'n gwaith ar y Gymraeg. Mae hynny'n golygu y dylai unrhyw bolisi gan Lywodraeth Cymru ystyried sut mae ein polisïau'n effeithio ar yr iaith a'r bobl sy'n ei siarad.

Mae tair thema gydgysylltiedig i strategaeth [Cymraeg 2050](#):



Mae'r penawdau o dan bob thema yn amlinellu cwmpas gweithgareddau sy'n gallu effeithio ar yr iaith.

Fel rheol, os oes posibilrwydd y bydd eich polisi'n effeithio ar bobl, bydd yn effeithio mewn rhyw ffordd ar siaradwyr Cymraeg ac felly ar y Gymraeg.

1. Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (a gwblhawyd gan Dîm Safonau'r Gymraeg, cyfeiriad e-bost: Safonau.Standards@llyw.cymru):
2. A yw'r cynnig yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg? – [Cymraeg 2050 Miliwn o Siaradwyr](#) a'r Rhaglen Waith gysylltiedig ar gyfer 2021-2026? [Rhaglen waith Cymraeg 2050 2021/2026](#)

Y cefndir

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol (2025-2035) newydd ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Roedd yr Asesiad Effaith hwn yn ystyried effeithiau'r strategaeth newydd ar y Gymraeg.

Y weledigaeth gyffredinol ar gyfer y strategaeth hon yw:

'Bydd pobl yng Nghymru yn byw mewn gwlad sy'n eu hannog, yn eu cefnogi ac yn eu grymuso i wella eu hiechyd meddwl a'u llesiant meddyliol, a hynny heb stigma a gwahaniaethu'.

Bydd y gwaith o gyflawni'r weledigaeth gyffredinol yn cael ei ategu gan bedwar datganiad gweledigaeth:

DATGANIAD GWELEDIGAETH 1: Ceir camau gweithredu i sicrhau bod y blociau adeiladu ar waith i gefnogi iechyd meddwl a llesiant meddyliol da.

DATGANIAD GWELEDIGAETH 2: Mae gan bawb yr wybodaeth, y cyfleoedd a'r hyder i amddiffyn a hybu iechyd meddwl a llesiant meddyliol da.

DATGANIAD GWELEDIGAETH 3: Ceir system gysylltiedig lle mae pawb yn cael y lefel briodol o gymorth lle bynnag y maent yn gofyn am help.

DATGANIAD GWELEDIGAETH 4: Ceir gwasanaethau iechyd meddwl di-dor sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn cael eu harwain gan angen ac yn cyfeirio at y cymorth cywir y tro cyntaf, yn ddi-oed.

Ynghyd â'r datganiadau gweledigaeth, rydym wedi profi nifer o egwyddorion i ategu'r rhai a amlinellir yn Cymru lachach: ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru lachach). Mae'r egwyddorion hyn yn berthnasol ar draws y datganiadau o weledigaeth a'r camau gweithredu cysylltiedig a nodir yn y strategaeth. Y blaenoriaethau hyn yw:

Pob oed: byddwn yn defnyddio dull pob oed i sicrhau bod gennym system a fydd yn cefnogi pawb, ac sy'n hyrwyddo gwell integreiddio rhwng gwasanaethau. Yn y strategaeth drwyddi draw, mae unrhyw gyfeiriad at "bobl" yn golygu unigolion o bob oed, gan gynnwys babanod, plant, pobl ifanc a phobl hŷn.

Canolbwyntio ar yr unigolyn: byddwn yn cefnogi pobl i gydnabod a datblygu eu cryfderau a'u galluedd eu hunain i wneud penderfyniadau gwybodus am eu hiechyd

eu hunain. Cynigir gofal a chymorth sy'n cael ei gydlynw a'i bersonoli, gan sicrhau bod pobl yn cael eu trin gydag urddas, tosturi a pharch bob amser.

Cydgynhyrchu: byddwn yn trin pobl fel partneriaid cyfartal wrth ddylunio, datblygu a chyflwyno polisiau a gwasanaethau.

Dull sy'n seiliedig ar hawliau: byddwn yn sicrhau bod gofal a chymorth yn cael ei ddarparu mewn ffordd sy'n parchu, amddiffyn a chyflawni hawliau unigolion, a byddwn yn ystyried yr hawliau penodol sydd gan rai grwpiau, er enghraifft, hawliau plant a hawliau pobl anabl.

Dim drws anghywir: byddwn yn sicrhau bod pobl yn gallu ymgwyflwyno ar unrhyw bwynt yn y system a chael eu cyfeirio i'r cymorth cywir yn ddi-oed.

Ystyriol o drawma: byddwn yn adeiladu dealltwriaeth gyhoeddus o sut gall trawma ac adfyd effeithio ar bobl a sut gallwn ni i gyd gefnogi'r rhai yr effeithir arnynt gan drawma.

Tegwch mynediad, profiad a chanlyniadau heb wahaniaethu: byddwn yn sicrhau bod gwasanaethau a chymorth yn hygyrch ac yn briodol i bawb. Mae hyn yn cynnwys yr angen i'r system iechyd meddwl weithredu mewn modd gwrth-hiliol.

Defnyddio dull croestoriadedd: Byddwn yn dylunio polisiau a gwasanaethau sy'n cydnabod bod pobl yn cael eu siapia gan eu haelodaeth o sawl categori cymdeithasol rhyng-gysylltiedig a all ryngweithio i greu heriau unigryw.

Ataliol ac yn seiliedig ar werth: byddwn yn amddiffyn ac yn hybu ein hiechyd meddwl a'n llesiant meddyliol drwy gydol pob cam o fywyd i gefnogi bywyd boddhaus. Defnyddir dull lle'r ydym yn lleihau'r ffactorau risg ar gyfer iechyd meddwl gwael, ac yn canolbwyntio ar y ffactorau amddiffynnol i unigolion a chymunedau ac yn ymyrryd cyn gynted â phosibl pan fo angen.

Yn rhydd o stigma a chywilydd, bai a barnu: byddwn yn mynd i'r afael â stigma a'r safbwyntiau cymdeithasol sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl gwael.

Canolbwyntio ar ganlyniadau: byddwn yn cyflawni yn erbyn y canlyniadau sy'n bwysig i bobl ac mae gennym system sy'n gallu mesur y canlyniadau hyn a chael ein dwyn i gyfrif amdanynt.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi'r ffordd o fynd ati i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol – a gwneud i gyrff cyhoeddus feddwl yn fwy hirdymor, gan geisio atal problemau cyn iddynt ddod i'r amlwg. Wrth wneud hynny, mae'n nodi nodau llesiant, gan gynnwys Cymru iachach a Chymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Mae gan iechyd a gofal cymdeithasol rôl allweddol i'w chwarae wrth gyflawni'r nod hwn.

Nod Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar gyfer diwylliant yw 'cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden'. Mae diwylliant yn cynnwys amgueddfeydd, archifau, llyfrgelloedd a'r celfyddydau; mae treftadaeth yn cynnwys yr amgylchedd

hanesyddol adeiledig a threftadaeth anniriaethol megis traddodiadau; mae'r celfyddydau'n cwmpasu sectorau perfformio a chreadigol gan gynnwys cerddoriaeth, llenyddiaeth, theatr a chelf, tra bo chwaraeon a hamdden yn cynnwys chwaraeon elit a chymunedol, yn ogystal â chyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden awyr agored ehangach.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru raglen waith [Cymraeg 2050: rhaglen waith 2021-2026](#) a'i nod yw cynyddu nifer y bobl sy'n siarad ac yn defnyddio'r iaith. Mae darparu gwasanaethau dwyieithog yn flaenoriaeth allweddol, ac fe'i cefnogir gan Safonau'r Gymraeg.

O ran iechyd, nod y fframwaith strategol [Mwy na geiriau: cynllun y Gymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol](#) yw cryfhau gwasanaethau Cymraeg mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.¹ Mae [Cynllun 5 mlynedd Mwy na Geiriau](#) (2022-2027) yn parhau i nodi defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl yn un o'r grwpiau blaenoriaeth ac mae'n cydnabod bod angen gwneud mwy i wella argaeledd ac ansawdd y gwasanaethau hyn, "nid dim ond er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth, ond er diogelwch a pharch i gleifion".

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn rhoi dyletswydd ar unrhyw bersonau sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf i geisio hyrwyddo llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofawyr sydd angen cymorth. Mae'r Ddeddf yn diffinio llesiant, ac mae'r diffiniad hwnnw'n cynnwys "sicrhau hawliau a hawlogaethau". I lawer o siaradwyr Cymraeg, bydd sicrhau hawliau a hawlogaethau yn golygu defnyddio eu hiaith eu hunain i allu cyfathrebu a chwarae rhan fel partneriaid cyfartal yn eu gofal.²

Roedd Strategaeth Iechyd Meddwl flaenorol Cymru, [Law yn Llaw at Iechyd Meddwl](#), yn cynnwys ymrwymadau penodol o ran darparu gwasanaethau iechyd meddwl dwyieithog a gweithio gyda'r byrddau iechyd i feithrin capasiti a gallu. Yn wir, cydnabyddir bod rhai pobl sydd â llesiant emosiynol gwael a/neu gyflyrau iechyd meddwl yn arbennig o agored i niwed oherwydd y gall eu gofal ddioddef os nad ydynt yn cael eu trin yn eu hiaith eu hunain.³ Mae'n arbennig o bwysig newid y sefyllfa lle mae cyfrifoldeb ar ddefnyddwyr gwasanaethau i ofyn am wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, a sicrhau yn hytrach bod hyn yn cael ei gynnig gan y gwasanaeth ei hun. Enw'r egwyddor hwn yw'r "Cynnig Rhagweithiol". Dyma sut y caiff ei nodi yng Nghynllun Pum Mlynedd Mwy Na Geiriau: "Llesiant yr unigolyn sy'n bwysig mewn gwasanaethau iechyd meddwl, felly mae angen i ni feddwl am yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn, nid dim ond gwneud yr un pethau rydym wedi'u gwneud

¹ *Mwy na geiriau* yw fframwaith strategol Llywodraeth Cymru i gryfhau gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Gall pobl deimlo'n fregus wrth ddefnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac ni fydd ganddynt hyder i ofyn am wasanaethau Cymraeg. Mae'r Cynnig Rhagweithiol felly yn golygu cynnig dewis Cymraeg heb i gleifion orfod gofyn amdano. Mae'r [cynllun pum mlynedd \(2022-2027\)](#) ar gyfer y fframwaith yn nodi ymrwymadau allweddol ar gyfer cyflawni'r fframwaith strategol.

² Llywodraeth Cymru (2014) [Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg](#) Rhan 2 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014

³ [Llywodraeth Cymru ac Addysg Cymru \(Mawrth 2021\) Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol](#)

erioed oherwydd mai dyna sy'n teimlo'n gyfforddus i ni. Wedi'r cyfan, ym maes iechyd meddwl mae siarad eich iaith eich hun yn rhan o'r therapi." ⁴

Mae Cod Ymarfer Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 – y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer cyrchu gwasanaethau a chymorth iechyd meddwl yng Nghymru – yn tynnu sylw at yr angen i ystyried anghenion ieithyddol unigolion yn ofalus wrth deilwra'r gwaith o gydgyssylltu gofal i ddiwallu anghenion grwpiau penodol. Yn benodol: "Rhaid sefydlu proses gyfathrebu glir o ran iaith a diwylliant er mwyn sicrhau bod cleifion perthnasol a gofalwyr yn cael eu cynnwys o ddifrif, a'u bod yn derbyn y gofal a'r driniaeth orau bosibl. Yng Nghymru, mae hyn hefyd yn golygu y dylid cymryd pob cam posibl i sicrhau bod gwasanaethau dwyieithog (Cymraeg a Saesneg) ar gael." ⁵

Y disgwyliad hefyd yw y bydd gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru yn seiliedig ar yr egwyddor bod y Gymraeg a'r Saesneg i'w trin yn gyfartal: "Mae Llywodraeth Cymru yn gadarnhaol ynglŷn â'r Gymraeg a manteision dwyieithrwydd ac yn cydnabod bod gwasanaethau dwyieithog yn hanfodol i ddarparu gofal o safon, asesu effeithiol, triniaeth a chynllunio gofal. Dylid gwneud pob ymdrech i baru cleifion perthnasol dwyieithog ag ymarferwyr dwyieithog. Dylai cleifion perthnasol, lle bo hynny'n bosibl, gael yr opsiwn o asesu, trin a darparu gwybodaeth yn Gymraeg... dylid cymryd pob cam posibl i sicrhau bod gwasanaethau ar gael i siaradwyr Cymraeg yn yr iaith sy'n diwallu eu hanghenion unigol orau, a bod gwasanaethau yn cael eu datblygu a'u cefnogi'n briodol i'w darparu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. At hynny: "Dylai byrddau iechyd ac awdurdodau lleol hyrwyddo'r gwasanaethau dwyieithog sydd eisoes ar gael a chynyddu eu gallu i ddarparu gwasanaethau dwyieithog pan fo prinder staff sy'n siarad Cymraeg. Mae'n ddyletswydd ar fyrdau iechyd ac awdurdodau lleol i gynnig y gwasanaeth priodol yn hytrach na bod yn rhaid i'r claf perthnasol ofyn amdano." ⁶

Mae'r ffocws hwn ar degwch mynediad, profiad a chanlyniadau yn un o'r egwyddorion craidd sy'n sail i'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol (2025-2035). Yn benodol, rydym wedi nodi:

Tegwch mynediad, profiad a chanlyniadau heb wahaniaethu: sicrhau bod gwasanaethau a chymorth yn hygyrch ac yn briodol i bawb.

Mae'r strategaeth hefyd yn cynnwys y paragraffau canlynol sy'n nodi'r gofyniad i roi sylw i'r Gymraeg. Mae'n datgan:

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn rhoi statws swyddogol i'r iaith Gymraeg yng Nghymru ac yn atgyfnerthu'r egwyddor na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddarparu gwasanaethau.

Mae gan Lywodraeth Cymru uchelgais i Gymru fod yn genedl groesawgar, ddwyieithog, amrywiol a chynhwysol. Mae Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg yn nodi ein dull hirdymor o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg. Bydd y strategaeth hon yn cefnogi'r gwaith o gyflawni Mwy na Geiriau: Cynllun Pum Mlynedd (2022-2027), sef fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg ym

⁴ Mwy na geiriau: cynllun y Gymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol | LLYW.CYMRU Rhagair (tudalen 5).

⁵ Cod Ymarfer ar Rannau 2 a 3 o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 Tudalen 7

⁶ Cod Ymarfer ar Rannau 2 a 3 o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 Paragraff 1.11

maes iechyd a gofal cymdeithasol ac a nododd ddefnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl yn un o'r grwpiau blaenoriaeth. Wrth ei gwraidd mae egwyddor y Cynnig Rhagweithiol. Mae'n rhoi'r cyfrifoldeb ar y darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol i gynnig gwasanaethau yn y Gymraeg, yn hytrach nag ar y claf neu ddefnyddiwr gwasanaeth i orfod gofyn amdanynt. Mae Fframwaith Mwy na Geiriau yn ceisio sbarduno cynnydd drwy ganolbwyntio ar dair thema cynllunio a pholisïau Cymraeg gan gynnwys data; cefnogi a datblygu sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu nawr ac yn y dyfodol; a rhannu arferion gorau a dull sy'n galluogi.

Mae derbyn triniaeth yn eu mamiaith yn gallu bod yn arbennig o bwysig i bobl sy'n profi iechyd meddwl gwael. Mae sicrhau bod gofal iechyd meddwl ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, a bod hyn yn cael ei gynnig yn rhagweithiol i bobl sy'n derbyn cymorth, yn hanfodol.

O ran cynllunio gofal a thriniaeth, mae anghenion cymdeithasol, diwylliannol neu ysbrydol unigolyn yn cael eu hystyried yn benodol, gyda Chod Ymarfer Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 yn datgan bod "angen i'r broses ar gyfer cytuno ar ganlyniadau ystyried a chydabod hunaniaeth ddiwylliannol y claf perthnasol yn llawn" ac y dylai "gwasanaethau geisio sicrhau bod darpariaeth i ddiwallu anghenion diwylliannol y claf perthnasol fel sy'n briodol". Fel yn achos pob cymuned arall, dylid nodi bod anghenion ieithyddol a diwylliannol yn cydblethu yn y gymuned Gymraeg, ac felly dylid ystyried iaith fel rhan o'r anghenion diwylliannol" (paragraff 4.74). Yn ogystal, "Dylai'r wybodaeth a gaiff ei rhoi fod mewn iaith a fformat sy'n briodol ac yn hawdd eu deall" (paragraff 7.17). Mae'r adran ar Gynllunio Gofal a Thriniaeth yn y Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol (2025-2035) yn cyfeirio'n benodol at y ffaith fod rhaid i gynlluniau gofal a thriniaeth hefyd nodi manylion y gwasanaethau sydd i'w darparu, neu'r camau a gymerir, i gyflawni canlyniadau a gynlluniwyd (gan gynnwys pryd, a chan bwy, y bydd y gwasanaethau hynny'n cael eu darparu neu'r camau'n cael eu cymryd) a gofynion iaith neu gyfathrebu (gan gynnwys o ran defnyddio'r Gymraeg).

Ymgysylltu cyn ac yn ystod yr ymgynghori – a'r hyn a ddywedodd rhanddeiliaid wrthym am eu dewis iaith

Mae'r Strategaeth wedi'i datblygu yn dilyn ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid ledled Cymru, gan gynnwys adolygiad annibynnol o'r Strategaeth Iechyd Meddwl flaenorol; digwyddiad cyn ymgynghori a ddenodd dros 250 o ymatebion i arolwg ar-lein; ac ymgynghoriad cyhoeddus 16 wythnos ar y strategaeth ddrafft (gyda 250 o ymatebion pellach) ac ymgysylltu penodol â 405 o blant a phobl ifanc.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, ymgysylltwyd hefyd â'n Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol, Cynghrair Iechyd Meddwl Cymru, y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Iechyd Meddwl Lleiafrifoedd Ethnig, y Fforwm Defnyddwyr Gwasanaethau Iechyd Meddwl a Gofalwyr, y Grŵp Rhanddeiliaid Ieuenctid Cenedlaethol, y Grŵp Cynghori Cenedlaethol ar Atal Hunanladdiad, Rhwydweithiau Amenedigol, y Grŵp Goruchwylio Gweithrediad ac Effaith ym Maes Dementia, a Grŵp Dysgu a Datblygu Dementia.

Ar gyfer yr ymgynghoriad ar y Strategaeth ddrafft, datblygwyd pecyn adnoddau a'i rannu â rhanddeiliaid i gynorthwyo ei gwaith ymgysylltu â phartneriaid a phobl sydd â phrofiad bywyd a nodweddion gwarchodedig.

Diben y digwyddiadau cyn ac yn ystod y broses ymgynghori oedd cynorthwyo'r gwaith o ddatblygu'r Strategaeth a'r asesiadau effaith ategol.

Dyma rai o'r prif themâu a godwyd gan randdeiliaid mewn perthynas â'r Gymraeg yn ystod yr ymgysylltu cyn ac yn ystod yr ymgynghori:

- Barn gyffredinol y gallai'r strategaeth gael effaith gadarnhaol ar ddarparu gwasanaethau yn yr Gymraeg - tynnodd ymatebwyr sylw at yr angen am fynediad cyfartal at adnoddau iechyd meddwl Cymraeg o safon i gynorthwyo'r gwaith hwn.
- Y gydnabyddiaeth fod cael cymorth yn y Gymraeg i'r rhai mwyaf agored i niwed yn fater o angen yn hytrach na dewis.
- Cydnabyddiaeth fod prinder gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol sy'n siarad Cymraeg, sy'n ffactor cyfyngol, ac y byddai parhau i recriwtio a chadw staff, drwy gyllid ychwanegol, yn hanfodol.
- Nododd nifer llai o ymatebwyr fod angen sicrhau bod sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach yn cael eu hariannu er mwyn helpu i ddatblygu gweithlu sy'n gallu darparu gwasanaethau yn y Gymraeg hefyd.

Rhai o'r themâu eraill y cyfeiriwyd atynt o ran cynnig darpariaeth yn newis iaith yr unigolyn oedd:

- Mae'n hanfodol canolbwyntio ar yr unigolyn (a rhoi'r person wrth galon gofal, cymorth a thriniaeth).
- Mae'n hanfodol sicrhau ansawdd a diogelwch y ddarpariaeth, gan sicrhau ei bod yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol.
- Cafwyd galwadau penodol am fynediad teg sy'n darparu gwasanaethau a chymorth hygyrch a phriodol – sy'n diwallu anghenion ein holl gymunedau.
- Cydnabyddiaeth fod angen i'r Strategaeth adlewyrchu ac ystyried anghenion ieithyddol y boblogaeth yn llawn. Mae Cymru'n wlad amlddiwylliannol ac mae gofynion iaith ehangach na'r Gymraeg yn unig; a nodwyd y byddai angen cyfieithu rhwng ieithoedd heblaw'r Gymraeg (gan gynnwys iaith Arwyddion Prydain).

Rydym wedi sicrhau bod y strategaeth yn cefnogi'r gwaith o [Cynllun 5 mlynedd Mwy na Geiriau](#) (2022-2027) sef fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ac a nododd bod defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl yn un o'r grwpiau blaenoriaeth Ein gweledigaeth ar gyfer "Mwy na Geiriau" yw i'r Gymraeg berthyn a chael ei hymgorffori mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru, fel bod unigolion yn derbyn gofal sy'n diwallu eu hanghenion iaith heb orfod gofyn amdano, gan arwain at ganlyniadau gwell.

Mae'r fframwaith yn ysgogi cynnydd trwy dair thema allweddol:

1. Polisiâu a chynlluniau ar gyfer y Gymraeg, gan gynnwys data.
2. Cefnogi a datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol.
3. Rhannu arferion gorau a dulliau galluogol.

Wrth wraidd y Fframwaith mae egwyddor y Cynnig Rhagweithiol, sy'n rhoi cyfrifoldeb ar ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol i gynnig gwasanaethau yn Gymraeg, yn hytrach na bod y cyfrifoldeb ar y claf neu'r defnyddiwr gwasanaethau i ofyn amdanynt.

I grynhoi, mae sicrhau bod gofal iechyd meddwl yn cael ei ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg, a bod hyn yn cael ei gynnig yn rhagweithiol i bobl sy'n cael cymorth, yn hanfodol ar gyfer cyfathrebu a gofal effeithiol. Mae hyn yn cyd-fynd ag egwyddor 'Cynnig Rhagweithiol' y fframwaith "Mwy na Geiriau", sydd â'r nod o gryfhau gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Dylid darparu cymorth i unigolion yn eu dewis iaith heb iddynt orfod gofyn amdano.

Yn ogystal, mae Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 yn gosod dyletswyddau ar ddarparwyr gwasanaethau iechyd meddwl a chydgyssylltwyr gofal i gynllunio gofal a thriniaeth mewn modd sy'n canolbwyntio ar nifer o feysydd bywyd (a chanlyniadau i'w cyflawni) y gwyddom eu bod yn cael effaith ar unigolion. Y rhain yw:

- Cyllid ac arian
- Llety
- Gofal personol a llesiant corfforol
- Addysg a hyfforddiant
- Gwaith a galwedigaeth
- Magu plant a pherthnasoedd gofalgarn
- Cymdeithasol, diwylliannol neu ysbrydol
- Triniaeth feddygol a mathau eraill o driniaeth, gan gynnwys ymyriadau seicolegol.

Mae'r meysydd hyn yn adlewyrchu penderfynyddion cymdeithasol iechyd sy'n cael effaith ar iechyd meddwl pobl ac yn darparu dull sy'n seiliedig ar hawliau o ran cymorth iechyd meddwl. Rhaid i Gynlluniau Gofal a Thriniaeth hefyd nodi manylion y gwasanaethau sydd i'w darparu, neu'r camau sydd i'w cymryd, i sicrhau'r canlyniadau arfaethedig (gan gynnwys pa bryd a chan bwy y mae'r gwasanaethau hynny i'w darparu neu y mae'r camau hynny i'w cymryd) ac unrhyw ofynion o ran iaith neu gyfathrebu (gan gynnwys defnyddio'r Gymraeg).

3. Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar y Gymraeg, ac eglurwch sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer y Gymraeg. **Sut bydd y cynnig yn effeithio ar siaradwyr Cymraeg o bob oed (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol) Dylech nodi eich ymatebion i'r canlynol wrth ateb y cwestiwn hwn, ynghyd ag unrhyw wybodaeth berthnasol arall:**

- ♦ **Sut bydd y cynnig yn effeithio ar gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith⁷ (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)?**
- ♦ **Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar addysg cyfrwng Cymraeg a dysgwyr Cymraeg o bob oed, gan gynnwys oedolion (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)?**

Enghreifftiau o effeithiau cadarnhaol:

- ♦ Conglfaen sylfaenol i gyflawni'r strategaeth yw Cynllun Gweithlu Iechyd Meddwl Strategol AaGIC a Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae hwn yn cynnwys ymrwymadau penodol i ddatblygu'r capasiti a'r gallu i wella'r ddarpariaeth Gymraeg mewn gwasanaethau iechyd meddwl. Bydd y Cynllun Gweithlu Iechyd Meddwl Strategol yn llywio strategaethau recriwtio a chadw staff a hyfforddiant a fydd yn sicrhau cynaliadwyedd y gweithlu iechyd meddwl Cymraeg. Gofynnir i fyrddau iechyd adrodd ar sut maent yn gwella'r ddarpariaeth Gymraeg mewn gwasanaethau iechyd meddwl, gan gynnwys darparu'r Cynnig Rhagweithiol, un o egwyddorion allweddol Mwy Na Geiriau.⁸
- ♦ Mae Cynllun Gweithlu Iechyd Meddwl Strategol AaGIC a Gofal Cymdeithasol Cymru yn datgan: "Mae'r cynllun gweithlu iechyd meddwl strategol yma'n cynnig cyfle heb ei ail i ni helpu i gryfhau system iechyd meddwl di-dor sy'n tynnu timau ambroffesiwn ac aml-asiantaeth ynghyd trwy wasanaethau iechyd meddwl sy'n troi o gylch yr unigolyn... Wrth i'n poblogaeth heneiddio, rydyn ni'n gwybod y bydd mwy o newid mewn anhwylderau tymor hir a chymhleth, ac mae hynny'n golygu ein bod ni'n debygol o weld cynnydd yn nifer y bobl sy'n dioddef o afiechyd meddwl yn dioddef o amrywiaeth o anhwylderau corfforol hefyd, felly mae angen i ni sicrhau bod y cynllun hwn yn helpu i sicrhau llythrennedd iechyd meddwl ar draws ein gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol. Rydyn ni'n cydnabod hefyd fod angen diwallu anghenion ieithyddol ein poblogaeth – fel bod gofal ar gael yn Gymraeg i'r rhai sydd ei angen."⁹ Mae'r gwaith sy'n cael ei wneud fel rhan o'r Cynllun Gweithlu Strategol newydd yn cynnwys (o 2022) contractau addysg newydd sy'n gosod disgwyliadau clir gan y darparwr addysg mewn perthynas â'r cymorth y gall pob myfyriwr ddisgwyl ei weld o ran y Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys derbyn gwaith ysgrifenedig yn Gymraeg fel rhan o asesiad neu arholiad, asesu sgiliau ar ddechrau cwrs, darparu cyfleoedd i ddysgu Cymraeg neu ddatblygu sgiliau presennol.
- ♦ Polisi allweddol sydd â'r nod o gefnogi plant a phobl ifanc, a staff, mewn ysgolion yng Nghymru, yw'r [Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol](#). Nod y dull ysgol gyfan yw hybu llesiant emosiynol a meddyliol da drwy hyrwyddo amgylchedd diwylliannol cadarnhaol mewn ysgolion, lle mae plant a phobl ifanc yn ffurfio perthynas gadarnhaol â staff a dysgwyr

⁷ Gall y rhain fod yn gymunedau clos yng nghefn gwlad, mewn rhwydweithiau cymdeithasol gwasgaredig mewn trefi ac mewn rhith-gymunedau nad ydynt yn cael eu cyfyngu gan ddaearyddiaeth.

⁸ *Mwy Na Geiriau* yw fframwaith strategol Llywodraeth Cymru i gryfhau gwasanaethau iaith Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae pobl yn gallu teimlo'n fregus wrth gyrchu iechyd a gofal cymdeithasol ac yn teimlo'n ddihyder wrth holi am wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Felly mae'r cynnig rhagweithiol yn golygu darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano.

⁹ AaGIC (2022) Cynllun Gweithlu Iechyd Meddwl Strategol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (tudalen 18).

eraill; a lle mae perthnasoedd yn cael eu cryfhau rhwng staff addysgu, gydag uwch-dîm arweinyddiaeth yr ysgol a staff ehangach yr ysgol, gyda rhieni a gofawyr, gyda gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda'r ysgol, a chyda'r gymuned ehangach sy'n amgylchynu'r ysgol. Mae'r Fframwaith yn cydnabod: "Mae'n hanfodol sicrhau tegwch o ran y gwasanaethau a ddarperir yn y ddwy iaith, yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg, a dylai'r ddarpariaeth honno adlewyrchu natur ieithyddol yr ysgol a'i dalgylch. I lawer, Cymraeg yw eu hiaith feunyddiol. Dylai ysgolion sicrhau bod ymyriadau ar gael yn Gymraeg a dylent ystyried dewisiadau ieithyddol eu dysgwyr wrth ddatblygu ymyriadau a chymorth. Byddai hefyd o fudd pe bai cyfleoedd hyfforddi a chymorth Cymraeg ar gael yn y gweithle'n hawdd." ¹⁰

- ♦ Mae 111 pwysu 2 yn wasanaeth newydd sydd ar gael i bobl o bob oed, 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos ym mhob rhan o Gymru er mwyn sicrhau bod y rhai sydd angen cymorth yn gallu cael gafael arno yn gyflym pan fydd ei angen fwyaf. Os oes angen i berson siarad â rhywun ar frys am ei iechyd meddwl, neu os yw'n poeni am aelod o'r teulu, gall alw GIG 111 Cymru a dewis opsiwn 2 i gael ei roi mewn cysylltiad uniongyrchol â gweithiwr iechyd meddwl proffesiynol yn ei ardal. Mae gwasanaeth 111 pwysu 2 yn ddwyieithog, ac mae'n cyd-fynd â Llinell Gymorth Iechyd Meddwl CALL sydd hefyd yn darparu llinell gymorth gwranddo a chymorth gyfrinachol ddwyieithog i bobl Cymru.
- ♦ Mae gwaith yn cael ei wneud i ddatblygu set ddata graidd iechyd meddwl. Bydd hyn yn sicrhau bod unrhyw ddata sy'n cael ei gasglu yn gadarn ac yn addas i'r diben, a bydd yn cynnwys blaenoriaethu data demograffig, megis oedran, rhywedd, dewis iaith ac ethnigrwydd. Bydd hyn yn cefnogi ein gallu i gynllunio gwasanaethau yn seiliedig ar anghenion a gofynion ein poblogaeth.
- ♦ **Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar y gwasanaethau¹¹ sydd ar gael yn Gymraeg (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)? (ee iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, trafnidiaeth, tai, digidol, ieuenctid, seilwaith, yr amgylchedd, llywodraeth leol ac ati)**

Mae'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol (2025-2035) yn strategaeth i bob oed, a rhagwelir y bydd yn cael effaith gadarnhaol ar siaradwyr Cymraeg o bob oed. Datblygwyd y Strategaeth mewn modd a fydd yn sicrhau bod effeithiau ar siaradwyr Cymraeg yn cael eu hystyried yn ystod yr holl gamau sy'n berthnasol i ddatblygu a chyflawni polisiâu.

Wrth ddatblygu'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol, rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r camau ategol a fydd yn ein galluogi i gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys ystyried yr effeithiau posibl o ran defnyddio'r Gymraeg.

Nodau Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol (2025-2035) – mewn perthynas â'r Gymraeg

¹⁰ [Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol](#)

¹¹ Nod Strategaeth y Gymraeg yw cynyddu ystod y gwasanaethau a gynigir i siaradwyr Cymraeg, a gweld cynnydd yn y defnydd a wneir o wasanaethau Cymraeg.

Bydd Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddylio I(2025-2035) yn helpu i wella hygyrchedd gwasanaethau a chymorth iechyd meddwl a llesiant drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd yn gwneud hyn drwy brif ffrydio ystyriaethau'r Gymraeg mewn datblygiadau gweithlu a phrosesau cynllunio.

Mae'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol (2025-2035) newydd yn nodi pedwar datganiad gweledigaeth ar gyfer iechyd meddwl a llesiant – a nifer o egwyddorion ategol.

Datganiad Gweledigaeth 1: Ceir camau gweithredu i sicrhau bod y blociau adeiladu ar waith i gefnogi iechyd meddwl a llesiant meddyliol da. O fewn y Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol (2025-2035) – mae camau trawslywodraethol i wella iechyd meddwl a llesiant meddyliol wedi'u fframio yng nghyd-destun Egwyddorion Marmot, sy'n canolbwyntio ar roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn; galluogi pob plentyn, person ifanc ac oedolyn i wneud y mwyaf o'u galluoedd a chael rheolaeth dros eu bywydau; creu cyflogaeth deg a gwaith da i bawb; sicrhau safon byw iach i bawb; creu a datblygu lleoedd a chymunedau iach a chynaliadwy; a chryfhau rôl ac effaith atal salwch. Bydd y Gymraeg yn berthnasol ar draws egwyddorion Marmot, a bydd y polisïau a'r rhaglenni unigol sy'n cefnogi eu darpariaeth wedi ystyried effeithiau ar y Gymraeg.

Datganiad Gweledigaeth 2: Bydd gan bawb yr wybodaeth, yr hyder a'r cyfleoedd i ddiogelu a gwella iechyd meddwl a llesiant meddyliol. Bydd sicrhau bod adnoddau a chyfleoedd ar gael yn Gymraeg / yn newis iaith unigolyn yn allweddol i'r datganiad gweledigaeth hwn.

Datganiad Gweledigaeth 3: Ceir system gysylltiedig lle mae pawb yn cael y lefel briodol o gymorth ble bynnag y maent yn gofyn am help. Ein nod cyffredinol yw sicrhau bod yr holl wasanaethau hyn yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu gwasanaeth cydgysylltiedig sy'n hawdd ei gyrchu ac sy'n hawdd ei lywio¹². Dylai gwasanaethau gefnogi pobl i ddod o hyd i'r cymorth cywir, yn y lle cywir, ar yr adeg gywir.

Datganiad Gweledigaeth 4: Ceir gwasanaethau iechyd meddwl di-dor sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn cael eu harwain gan angen ac yn cyfeirio at y cymorth cywir y tro cyntaf, yn ddi-oed. Mae hyn yn ymwneud â darparu mynediad at wasanaethau iechyd meddwl o safon sy'n seiliedig ar dystiolaeth i bawb a fyddai'n elwa arnynt, ac i'r gwasanaethau hynny ganolbwyntio ar ganlyniadau ac adferiad i bobl â chyflyrau iechyd meddwl ysgafn i gymedrol yn ogystal â phobl â chyflyrau iechyd meddwl difrifol a pharhaus. Rydym wedi datgan: "Bydd yr holl wybodaeth yn ystyried anghenion penodol unigolion a grwpiau. Mae hyn yn cynnwys parhau i hyrwyddo'r Cynnig Rhagweithiol, er mwyn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn gallu cael mynediad at y system mewn ffordd sy'n sicrhau'r canlyniadau iechyd gorau

¹² Cyfeirir at hyn weithiau fel 'dull ysgol gyfan'.

iddynt. Bydd Gweithrediaeth GIG Cymru yn datblygu **Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl** a Rhwydweithiau Clinigol sydd â cryf ar wella ansawdd gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru. Mae'r Strategaeth yn nodi y bydd hyn yn cynnwys darparu gwasanaethau y gellir eu defnyddio; yn benodol "bydd ein system iechyd meddwl yn rhoi cyfle cyfartal i bawb gyrraedd eu potensial llawn am fywyd iach. Ni fydd ei ansawdd yn amrywio yn ôl y sefydliad sy'n darparu'r gofal, lleoliad darparu'r gofal na nodweddion personol (megis oedran, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, hil, dewis iaith, anabledd, crefydd neu gredoau, statws economaidd-gymdeithasol neu ymlyniad gwleidyddol). Byddwn yn gwreiddio cydraddoldeb a dull seiliedig ar hawliau yn ein system gofal iechyd, ac yn parhau i hyrwyddo'r Cynnig Rhagweithiol a sicrhau ei fod ar waith."

Ni fydd popeth yn cael ei gyflawni ar unwaith, a bydd manylion targedau tymor byr yn cael eu nodi mewn cynlluniau cyflawni. Bydd y cynlluniau cyflawni hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a byddant yn esbonio'r camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni ein gweledigaeth, gan sicrhau'r defnydd gorau o'r adnoddau presennol, a bydd cyfle i fod yn glir ynghylch yr hyn sy'n bosibl i'w gyflawni yn realistig. Bydd y cynlluniau hyn yn canolbwyntio ar yr hyn y mae rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaethau wedi dweud wrthym sy'n bwysig iddynt er mwyn cyflawni'r datganiadau gweledigaeth a byddant yn amlinellu'r dull yr ydym yn bwriadu ei ddefnyddio ar gyfer pob un.

- ♦ **Sut y byddwch yn sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg a'u bod yn gallu cael mynediad atynt a'u defnyddio mor rhwydd â gwasanaethau Saesneg?**

Roedd cyfathrebu yn thema bwysig a godwyd gan randdeiliaid yn ystod yr ymgysylltu cyn-ymgyngori. O fewn y Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol (2025-2035), mae adran benodol lle mae'r ffocws ar gyfathrebu, lle rydym wedi nodi'r canlynol:

Byddwn yn sicrhau bod y cyhoedd yn gwybod sut gallant gael mynediad at gymorth a gwasanaethau a'r hyn y gall pobl ei ddisgwyl o'r cymorth hwn. Bydd galluogi pobl i ddeall pa gymorth y mae ganddynt yr hawl iddo, a ble i gael mynediad iddo, yn cefnogi eu gallu i wneud dewisiadau gwybodus o fewn y system.

Yn ystod y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf, rydym wedi datblygu dull gweithredu i dynnu sylw at y cymorth sydd ar gael yn genedlaethol ac yn rhanbarthol, ond gwyddom fod angen gwneud mwy i sicrhau bod yr wybodaeth hon yn gyson, yn hygyrch ac yn hawdd ei deall a'i defnyddio, er mwyn osgoi creu rhwystrau i bobl gael mynediad at y cymorth sydd ei angen arnynt.

Gwyddom hefyd fod angen i'r cyfathrebu hwn ystyried anghenion penodol unigolion a grwpiau. Mae hyn yn cynnwys parhau i hyrwyddo'r Cynnig Rhagweithiol, er mwyn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn gallu cael mynediad at y system mewn ffordd sy'n sicrhau'r canlyniadau iechyd gorau iddynt.

Camau penodol yn y cynllun cyflawni sy'n ymdrin â hyn:

DG 4.6 Sicrhau bod cynllun clir i ddarparu gwybodaeth am wasanaethau a chymorth iechyd meddwl a sut i gael mynediad atynt. Gyda charreg filltir benodol sy'n nodi: *Datblygu cynllun cyfathrebu sy'n galluogi gwybodaeth i gael ei ddarparu mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n hygyrch. Bydd hyn yn cynnwys hyrwyddo'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg a sicrhau bod yr holl wybodaeth yn cydymffurfio â Safon Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Chollod Synhwyrdd a Chyfathrebu â Hwyl.*

DG 4.7. Gosod y safonau ar gyfer yr hyn y disgwylir i fyrdau iechyd, awdurdodau lleol a phartneriaid a gomisiynwyd ei ddarparu i sicrhau gwasanaethau iechyd meddwl o ansawdd da ledled Cymru. Gyda charreg filltir benodol sy'n cynnwys *Cyflawni ein hymrwymiad yn Mwy na Geiriau i ddatblygu a gweithredu adnoddau ymhellach i gefnogi prif ffrydio ystyriaethau iaith Gymraeg i brosesau cynllunio a llunio polisiau iechyd meddwl. Mae hyn yn cynnwys gweithredu Canllawiau Cynllunio gweithlu ar gyfer yr iaith Gymraeg Addysg a Gwellu Iechyd Cymru a chefnogi a datblygu sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol – drwy (er enghraifft) y Cwrs Croeso a'r Cwrs Codi Hyder a ddatblygwyd gan y Ganolfan Dysgu Gymraeg Genedlaethol fel rhan o'i chynllun Gymraeg Gwaith ar gyfer y sector iechyd a gofal cymdeithasol.*

Rydym hefyd yn cydnabod bod anghysondebau'n gallu codi o ran yr iaith y mae pobl yn ei defnyddio i ddisgrifio iechyd meddwl, a bod hynny'n gallu arwain at gamsyniadau, a methiant i fodloni disgwyliadau ynghylch y cymorth sydd ar gael. Mae'r Strategaeth hon yn ceisio sefydlu iaith gyffredin ar gyfer sôn am ein hiechyd meddwl a'n llesiant meddyliol.

Yn ogystal, ac i ategu Datganiad Gweledigaeth 2, rydym wedi cynnwys y camau canlynol a fydd yn rhoi sylw dyladwy i'r Gymraeg:

- Cam gweithredu DG 2.3. Drwy 'Hapus', darparu gwybodaeth a chyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n atal iechyd meddwl gwael ac sy'n amddiffyn ac yn hybu iechyd meddwl a llesiant meddyliol da.
- Cam gweithredu DG2.4: Cryfhau mecanweithiau sy'n cyfeirio aelodau o'r cyhoedd at gyfleoedd iechyd meddwl a llesiant meddyliol ac ymgorffori'r defnydd o bresgripsiynu cymdeithasol mewn ffordd sy'n diwallu anghenion pob cymuned.
 - ♦ **Pa dystiolaeth / data y gwnaethoch eu defnyddio i lywio eich asesiad, gan gynnwys tystiolaeth gan siaradwyr Gymraeg neu grwpiau â diddordeb yn y Gymraeg?**

Darganfuwyd y canlynol yn sgil tystiolaeth a ddeilliodd o adolygiad cyflym o'r llenyddiaeth a gynhaliwyd gan swyddogion y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi:

- I gleifion sy'n defnyddio'r Saesneg fel ail iaith (ESL) mae oedi'n aml cyn iddynt gael mynediad at wasanaethau gofal iechyd sydd ar gael; yn wir, gall yr ofn o beidio â chael eu deall neu o gamddeall cyngor meddygol atal unigolion rhag ceisio cymorth.¹³

¹³ [Impacts of English language proficiency on healthcare access, use, and outcomes among immigrants: a qualitative study - PMC](#)

- Hefyd mae rhwystrau iaith yn llesteirio cyfathrebu effeithiol rhwng darparwyr gofal iechyd a chleientiaid, gan arwain at gamddiagnosis, triniaethau amhriodol a/neu golli manylion cynnil mewn gofal cleifion¹⁴. Mae hyn yn ei dro yn arwain at ofal is-optimadd ac anfodlonrwydd â'r gofal a gafwyd¹⁵.
- Mae rhwystrau iaith yn amharu ar y modd yr ymlynir wrth driniaethau a'r defnydd a wneir o wasanaethau atal a sgrinio, gan arwain at ragor o oedi cyn y gellir cael gofal amserol. Yn ei dro, gall hyn arwain at ddulliau gwael o reoli clefydau cronig ac, yn y pen draw, at ganlyniadau iechyd gwael¹⁶.
- Mae iaith yn arbennig o bwysig mewn gofal iechyd meddwl, gan fod y ddeialog rhwng cleifion ac ymarferwyr yn allweddol wrth gynnal asesiadau diagnostig ac wrth ddarparu triniaeth¹⁷.
- Hefyd, gwelir bod rhwystrau iaith yn amharu ar ddatblygu cydberthynas therapiwtig rhwng y cleient a'r ymarferydd¹⁸.
- Er nad yw'r pwynt hwn yn ymwneud yn benodol â'r Gymraeg, mae rhai astudiaethau presennol sy'n canolbwyntio ar iechyd meddwl a rhwystrau iaith yn dangos yn gyson bod aelodau lleiafrifoedd ieithyddol yn gwneud llai o ddefnydd o wasanaethau iechyd meddwl o gymharu â grwpiau eraill, ar gyfer lefelau gofid tebyg^{19 20}.
- Gwelir bod defnyddio cyfieithwyr anhyfforddedig neu aelodau teuluol yn gallu arwain at broblemau'n ymwneud â chamddehongli a chyfrinachedd²¹.
- Yn ôl gwaith ymchwil a oedd yn edrych yn benodol ar y Gymraeg, er bod y rhan fwyaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru hefyd yn siarad Saesneg ac felly'n ddwyieithog, mewn sefyllfaoedd o straen a bregusrwydd, gwelwyd bod llawer yn teimlo'n fwy cyfforddus a hyderus yn cyfathrebu yn Gymraeg wrth siarad â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol²². At hynny, mae'n bosibl y bydd pobl sy'n gwbl rugl yn y Saesneg yn colli eu meistrolaeth ar yr iaith ac yn troi at siarad Cymraeg pan fyddant yn flinedig, yn sâl neu o dan straen²³; mae hyn yn dangos bod angen i'r gwasanaethau fod ar gael yn newis iaith y claf.
- Dangosodd dadansoddiad o'r cyfraddau hunanladdiad tybiedig rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, mai Gogledd Cymru oedd â'r gyfradd uchaf o farwolaethau trwy hunanladdiad tybiedig (14.1 am bob 100,000; er nad oedd yn ystadegol arwyddocaol wahanol i gyfradd Cymru²⁴). Mae ymchwil hefyd wedi

¹⁴ [Language proficiency and adverse events in US hospitals: a pilot study - PubMed](#)

¹⁵ [The need for more research on language barriers in health care: a proposed research agenda - PubMed](#)

¹⁶ [Impacts of English language proficiency on healthcare access, use, and outcomes among immigrants: a qualitative study - PMC](#)

¹⁷ [\(27\) Language Barriers in Mental Health Care: A Survey of Primary Care Practitioners](#)

¹⁸ [Impacts of English language proficiency on healthcare access, use, and outcomes among immigrants: a qualitative study - PMC](#)

¹⁹ Laher N, Sultana A, Aery A, Kumar N. Access to language interpretation services and its impact on clinical and patients outcomes: a scoping review. Toronto: Wellesley Institute: Advancing Urban Health; 2018. p. 1–78.

²⁰ Delara M. Social determinants of immigrant women's mental health. Adv Public Health. 2016;2016:1–

11. <https://doi.org/10.1155/2016/9730162>.

²¹ [Impacts of English language proficiency on healthcare access, use, and outcomes among immigrants: a qualitative study | BMC Health Services Research | Full Text \(biomedcentral.com\)](#)

²² Roberts, G., 1991. The use of the Welsh language in nurse-patient communication within a bilingual health care setting. Traethawd MN anghyhoeddedig. Prifysgol Cymru, Caerdydd.

²³ Thomas, G., 1998. The experiences of Welsh speaking women in a bilingual maternity service. Traethawd MSc anghyhoeddedig. Prifysgol Cymru, Caerdydd.

²⁴ [Adroddiad Blynyddol: Deaths by suspected suicide 2023-24 – Iechyd Cyhoeddus Cymru](#)

dangos bod cyfraddau anghymesur o uchel o hunanladdiad ymhlith y gweithlu ffermio ac amaethyddiaeth²⁵. Yn achos y ddwy boblogaeth, Cymraeg yw eu hiaith gyntaf yn aml.

- Dengys y dystiolaeth pa mor bwysig yw adeiladu gweithlu clinigol amlieithog, yn cynnwys seiciatryddion, seicolegwyr, gweithwyr cymdeithasol, cwnselwyr proffesiynol trwyddedig a gwirfoddolwyr²⁶.

- ♦ **Pa dystiolaeth arall a fyddai'n eich helpu i gynnal asesiad gwell?**

Nid yw'r rhan fwyaf o'r gwaith ymchwil a nodir ac a ddyfynnir yn yr adolygiad tystiolaeth yn benodol i'r Gymraeg; yn hytrach mae'n canolbwyntio ar gyfranogwyr sy'n siarad Saesneg fel ail iaith, y daw'r rhan fwyaf ohonynt o grwpiau ethnig lleiafrifol. O'r herwydd, er bod rhwystrau iaith yn broblem, mae'n bosibl fod gwahaniaethau diwylliannol eraill hefyd yn effeithio ar allu pobl i gael mynediad at ofal a thriniaeth briodol. Er mwyn gallu deall yn well beth yw effaith y Gymraeg ar gael cymorth priodol ac effeithiol, mae angen cynnal rhagor o ymchwil.

- ♦ **Sut y byddwch yn gwybod a yw eich polisi yn llwyddiant?**

Ar y cyd â'r Strategaeth, byddwn yn cyhoeddi "damcaniaeth newid". Bydd y ddamcaniaeth newid yn nodi'r mecanweithiau y bwriedir iddynt sicrhau y bydd y strategaeth yn cyflawni ei chanlyniadau.

Ar ôl cyhoeddi'r Strategaeth, byddwn yn datblygu fframwaith canlyniadau, a fydd yn cynnwys dangosyddion sydd eisoes wedi'u nodi a'u rhestru yn y Strategaeth, gan nodi dangosyddion pellach ar gyfer pob canlyniad yn y Ddamcaniaeth Newid.

Byddwn yn ymhelaethu ar y fframwaith hwn yn ystod cam gweithredu cynnar y Strategaeth er mwyn pennu dulliau casglu data a rhagor o ffynonellau data. Yn ei dro, bydd hyn yn cyfrannu at ddatblygu fframwaith monitro a gwerthuso blynyddol, a fydd yn mesur perfformiad a chanlyniadau ac yn sicrhau ein bod yn cyflawni'r amcanion.

Rydym yn cydnabod y bydd ymrwymadau eraill ar draws y Rhaglen Lywodraethu hefyd yn cefnogi iechyd meddwl a llesiant. Mae manylion am sut mae gwaith gwahanol rannau o'r Llywodraeth yn cefnogi iechyd meddwl a llesiant meddyliol wedi'u hamlinellu o dan Ddatganiad Gweledigaeth 1.

²⁵ RRH: Rural and Remote Health article: 8189 - Understanding the factors contributing to farmer suicide: a meta-synthesis of qualitative research

²⁶ Overcoming linguistic barriers to accessing mental health services (diplomaticourier.com)